

Ein Cyf:

Dyddiad: 31 Gorffennaf 2013


Darren Millar AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Mr Millar,

**Argymhelliad 12 y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Cyfarfodydd y Bwrdd
Perfformiad Mamolaeth**

Mae'n bleser gennyf amgáu'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad Mamolaeth a gynhaliwyd yn ystod y gwanwyn eleni. Gwneir hyn yn unol â gofynion Argymhelliad 12 adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Wasanaethau Mamolaeth.

Yn gywir



Yr Athro Jean White
Prif Swyddog Nyrsio
Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru

**GWYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYFARFODYDD Y BWRDD
PERFFORMIAD MAMOLAETH
GWANWYN 2013**

Cylch gorchwyl	tudalen 2
Crynodeb o gyfarfodydd y Bwrdd Mamolaeth	tudalen 3
Enghreifftiau o Ymarfer Da	tudalen 5
Nodiadau cyfarfodydd y Bwrdd Mamolaeth	
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	tudalen 11
Aneurin Bevan	tudalen 13
Powys	tudalen 15
Cwm Taf	tudalen 17
Caerdydd	tudalen 19
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	tudalen 21
Hywel Dda	tudalen 23

BWRDD PERFFORMIAD MAMOLAETH – CYLCH GORCHWYL

CEFNDIR

Cylch gwaith y Bwrdd Perfformiad yw sicrhau bod Byrddau Iechyd yn atebol am ddarparu gwasanaethau mamolaeth yn unol â chamau gweithredu allweddol y Weledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru drwy:

- Adolygu a monitro cynlluniau darpariaeth;
- Adolygu data ar ddangosyddion canlyniadau a mesurau perfformiad;
- Trafod meysydd pryder lle nad yw perfformiad yn gwella;
- Cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer gwelliant;
- Lledaenu arferion da ledled Cymru;
- Darparu adborth ar gyfer rheolwyr perfformiad Llywodraeth Cymru er mwyn llywio eu prosesau.

Aelodau

Yr Athro Jean White – Prif Swyddog Nyrsio – Cadeirydd
Polly Ferguson – Swyddog Nyrsio Mamolaeth a'r Blynnyddoedd Cynnar
Dr Heather Payne – Uwch Swyddog Meddygol Iechyd Mamau a Phlant
Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Proses

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag arweinwyr Gwasanaethau Mamolaeth pob Bwrdd Iechyd i adolygu perfformiad.

Cyn cyfarfod pob Bwrdd Iechyd, ac er mwyn llywio'r trafodaethau, bydd y Prif Swyddog Nyrsio yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan y sefydliadau canlynol:

- Y Bwrdd Iechyd perthnasol
- Cadeirydd pob Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth
- Coleg Brenhinol y Bydwagedd
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Awdurdod Goruchwyllo Lleol
- Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr

Yn dilyn cyfarfod pob Bwrdd Iechyd, bydd y Bwrdd Iechyd yn derbyn adroddiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru yn nodi'r meysydd lle mae cynnydd wedi'i wneud a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Amllder Cyfarfodydd

Dwywaith y flwyddyn.

Cynrychiolwyr y Byrddau Iechyd

Cynrychiolir y Byrddau Iechyd gan:

- Y Pennaeth Bydwreigiaeth
- Y Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Mamolaeth
- Rheolwr y Gyfarwyddiaeth
- Cadeirydd y Defnyddwyr neu gynrychiolydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth y Bwrdd Iechyd (MSLC)

CRYNODEB O GYFARFODYDD Y BWRDD PERFFORMIAD MAMOLAETH – GWANWYN 2013

Mae pob Bwrdd Iechyd wedi mynychu cyfarfod o'r Bwrdd Perfformiad. Cafwyd cyfraniad da gan arweinyddion gwasanaethau mamolaeth a ddangosodd ddealltwriaeth glir o heriau'r dyfodol ac ymrwymiad i wella gwasanaethau.

Gan fod casglu data yn gryn her, cafodd Pennaeth Gwybodaeth pob Bwrdd Iechyd wahoddiad i fynychu'r cyfarfod cyntaf er mwyn trafod sut y byddant yn helpu gwasanaethau mamolaeth i gasglu'r data gofynnol erbyn yr hydref.

Er bod y cylch gorchwyl yn nodi y bydd y Prif Swyddog Nyrsio yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig gan sefydliadau perthnasol cyn pob cyfarfod Bwrdd Iechyd, cytunwyd na fyddai hyn yn digwydd ar gyfer y cyfarfod cyntaf i gyflwyno'r cefndir. Bydd sefydliadau yn cael y cyfle i gyflwyno dystiolaeth ysgrifenedig ym mhob cyfarfod yn y dyfodol.

Llwyddiannau

- Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC)
Cafodd Cadeirydd Defnyddwyr pob MSLC wahoddiad i fynychu'r Bwrdd Perfformiad er mwyn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wrando ar leisiau defnyddwyr ac ymateb iddynt.

Mynychodd y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd (os nad oedd y Cadeirydd ar gael) bob un o'r cyfarfodydd. Cafwyd cyfraniad da at y cyfarfodydd gan ddefnyddwyr.

- Boddhad Defnyddwyr
Mae yna eglurder ynghylch dull Gymru gyfan o gynnal arolygon o foddhad defnyddwyr, gan ddisgwyl y bydd adborth ar ganlyniadau yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Perfformiad yn yr hydref.
- Gweithlu bydwreigiaeth
Mae 6 o'r 7 Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â phecyn cynllunio'r gweithlu *Birthrate Plus*, sy'n dangos bod ganddynt y nifer cywir o fydwragedd i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol. Mae'r un Bwrdd Iechyd nad yw'n cydymffurfio bedair bydwraig yn brin, a bydd yn adolygu ei ofynion bydwreigiaeth unwaith y bydd y broses o ad-drefnu'r gwasanaeth wedi'i chytuno.

Heriau

- **Cyfraddau Toriadau Cesaraid**
Er bod gan bob Bwrdd Iechyd gynlluniau ar waith i leihau'r cyfraddau, maent yn parhau i fod yn uchel (dros 25%) ym mhob Bwrdd Iechyd ac eithrio Caerdydd a'r Fro. Mae pob Bwrdd Iechyd yn ceisio lleihau'r cyfraddau, ac mae gofyn iddynt adrodd ar y cyfraddau bob mis. Adolygir cynlluniau i wella'r cyfraddau yng nghyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad yn yr hydref.
- **Casglu data**
Gofynnwyd i bob Bwrdd Iechyd ddod â'r sawl sy'n arwain ym maes gwybodaeth am famolaeth i gyfarfod cyntaf y Bwrdd Perfformiad er mwyn trafod gwelliannau

i'r gwaith o gasglu data electronig.

Ni allai unrhyw un o'r Byrddau Iechyd gyflwyno set ddata gyflawn, ond roedd rhai Byrddau Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol.

Nid oes gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr na Bwrdd Iechyd Powys unrhyw ffordd o gasglu data electronig, ond mae Powys yn gweithio'n agos â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i sicrhau bod Mamolaeth Myrddin yn weithredol erbyn mis Hydref 2013.

Mae prosiect penodol a sefydlwyd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ym mis Rhagfyr 2013 yn gweithio gyda'r holl Fyrddau Iechyd i'w helpu i gasglu data ar bob mesur perfformiad erbyn mis Hydref 2013. Mae'n bosibl na fydd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn llwyddo i wneud hyn.

- **Gwella Iechyd Menywod Beichiog**

Gofynnwyd i'r Byrddau Iechyd gyfrannu at leihau Mynegai Màs y Corff, ysmegu, yfed alcohol a chamddefnyddio sylweddau ymysg menywod beichiog.

Er mwyn gwneud hyn, bydd angen newid o ran ymarfer a chasglu data, ac er bod y Byrddau Iechyd yn ymwybodol o hyn, maent yn debygol o ganolbwyntio ar gasglu data yn y lle cyntaf. Yn y pen draw, bydd angen buddsoddi mewn datblygu sgiliau bydwreigiaeth er mwyn annog newid mewn ymddygiad. Trafodir hyn yng nghyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad yn yr Hydref.

- **Gwella Iechyd Meddwl yn Ystod Beichiogrwydd a'r Pwperperiwm**

Er mwyn ymateb i'r her o sicrhau bod cynlluniau a chymorth priodol ar gael i fenywod ar gyfer problemau Iechyd Meddwl a all godi neu waethygu yn ystod mamolaeth, gofynnwyd i'r Byrddau Iechyd adrodd ar eu cynnydd yn y cyswllt hwn. Gan mai mesur newydd yw hwn, mae angen cyfnod i gytuno ar lwybrau gofal priodol ar gyfer atgyfeiriadau. Mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith, a disgwylir i'r Byrddau Iechyd adrodd ar y mater hwn yng nghyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad yn yr Hydref.

- **Cydymffurfio â Chanllawiau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr ar Bresenoldeb Meddyg Ymgynghorol ar Ward Esgor**

Mae Byrddau Iechyd Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Hywel Dda yn nodi eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr, ond oherwydd newid i'r gwasanaethau, nododd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr y bydd angen cynyddu oriau meddygon ymgynghorol yn Wrecsam o 40 i 60 cyn bo hir.

Nid yw Byrddau Iechyd Caerdydd, Abertawe Bro Morgannwg na Chwm Taf yn cydymffurfio â'r canllawiau, ac maent yn aros am ganlyniad Rhaglen y De ac effaith yr ad-drefnu ar fodloni'r gofynion ar gyfer presenoldeb meddygon ymgynghorol. Mae'r broses o ddadansoddi'r gweithlu yn mynd rhagddi ar hyn o bryd fel rhan o raglen y De. Adolygir y sefyllfa hon yng nghyfarfod y Bwrdd Perfformiad yn yr Hydref.

Trafodir y sefyllfa yng nghyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad yn yr Hydref, ar ôl i'r

cynlluniau ad-drefnu gael eu cytuno. Bydd disgwyl wedyn i'r holl Fyrddau lechyd fod â chynlluniau ar waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.

Arferion Da mewn Gwasanaethau Mamolaeth

Gofynnwyd i'r Byrddau lechyd nodi pa rannau penodol o'u gwasanaeth y maent yn ymfalchïo ynddynt, a bydd yr enghreifftiau hyn yn cael eu rhoi ar wefannau'r Byrddau lechyd er mwyn rhannu arferion da.

BWRDD IECHYD PRIFYSGOL ABERTAWE BRO MORGANNWG

Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth - ysgrifennwyd gan ddefnyddiwr gwasanaethau sy'n aelod o'r Pwyllgor.

Mae'r pwyllgor yn gyfle gwirioneddol i ddefnyddwyr gwasanaethau mamolaeth ddweud eu dweud a dysgu mwy am sut mae gwasanaethau yn cael eu datblygu. Mae wedi rhoi dealltwriaeth well i mi o'r heriau sy'n wynebu'r GIG bob dydd. Mae'r grŵp yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol o gefndiroedd gwahanol, sy'n golygu bod y Pwyllgor yn elwa ar fewnbwn gwerthfawr gan lawer o adrannau sy'n ymwneud â gofal Mamolaeth, gan gynnwys Bydwragedd, Bydwragedd Dan Hyfforddiant, Gwasanaethau Ymwelwyr lechyd, Anaestheteg a Gynaecoleg. Mae gweithwyr proffesiynol eraill yn cael gwahoddiad i wneud cyflwyniad i'r grŵp pan fydd yn trafod pynciau penodol. Er enghraifft, daeth yr NSPCC i siarad am Syndrom Ysgwyd Babi ychydig wythnosau yn ôl.

Mae Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cynnwys cynrychiolaeth gref o blith defnyddwyr gwasanaethau. Mae gennym Doula, tad sy'n darparu cymorth gydag iselder ôl-enedigol ar gyfer partneriaid. Mae gennym gynrychiolaeth ar gyfer teuluoedd sydd wedi colli plentyn, Cyfeillion Cefnogol Bwydo ar y Fron ac Eiriolaeth Rhieni ar gyfer menywod a'u teuluoedd sydd efallai'n cael problemau'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth oherwydd anawsterau dysgu neu sefyllfaoedd cymdeithasol. Rydym yn trafod y grŵp yn gyson ag asiantaethau trydydd sector ac elusennau eraill sy'n cefnogi menywod a theuluoedd er mwyn cynnwys cymaint o grwpiau â phosibl. Rhoddir cryn bwyslais ac ystyriaeth i awgrymiadau gan aelodau lleyg o'r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth. Mae'r Pwyllgor wedi cefnogi cerdyn a gynlluniwyd gan Gyfaill Cefnogol Bwydo ar y Fron sy'n cael ei ddefnyddio gan weithwyr iechyd proffesiynol i hybu sgwrs er mwyn cefnogi menywod yn ystod eu diwrnodau cyntaf yn bwydo ar y fron. Ni fyddai syniadau unigryw fel hyn yn cael eu gweithredu heb Bwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth agored a chryf.

Rwy'n teimlo bod angen sicrhau bod y berthynas rhwng defnyddwyr gwasanaethau a'r rhai sy'n gyfrifol am greu a rheoli gwasanaethau mamolaeth yn agored ac yn gyfartal. Rwy'n credu bod y berthynas hon yn amlwg ym Mhwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ac y bydd yn uno gweithwyr iechyd proffesiynol a'r bobl y mae'n gofalu amdanynt i ddatblygu gwasanaethau o ansawdd da yn y dyfodol.

Defnyddio technoleg

Yn sgil cyflwyno'r Cyfryngau Cymdeithasu, mae cyfathrebu rhwng staff a chleifion yn haws o lawer, ac mae'n digwydd yn amlach.

Mae'r Tîm Mamolaeth, ynghyd â Thîm Cyfathrebu Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg, wedi manteisio ar y cyfryngau cymdeithasu i ymgysylltu a chyfathrebu â darpar famau a'u theluoedd drwy greu tudalen Facebook iechyd plant a theluoedd Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg. Mae'r dudalen plant a theluoedd yn un o is-dudalennau prif dudalen Facebook y Bwrdd Iechyd, sydd â thros 2,100 o ddilynwyr ar hyn o bryd. Ar y cyfrif diwethaf, roedd gan y dudalen plant a theluoedd 671 o ddilynwyr, sy'n debyg neu'n fwy na phrif dudalen Facebook rhai sefydliadau.

Mae'r Tîm yn defnyddio'r dudalen plant a theluoedd, ynghyd â Twitter, i gynnal perthynas gyson â chleifion, gan roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad iddynt, fel 'Deg Awgrym Gwych ar gyfer genedigaeth normal', 'A yw geni yn y cartref yn ddiogel?', pwysigrwydd y brechlyn MMR yn ystod yr achosion o'r frech goch, a chyfarpar newydd a gwelliannau i wasanaethau. Bu'r dudalen yn ddefnyddiol iawn hefyd o ran ateb cwestiynau cyffredinol gan famau a darpar famau, a thawelu eu meddyliau. Mae hefyd wedi creu cymuned lle mae pobl yn gallu rhannu eu profiadau eu hunain, a lle mae grwpiau fel Ymwybyddiaeth o Fwydo ar y Fron yn gallu cyfrannu gwybodaeth a chymorth.

BWRDD IECHYD ANEURIN BEVAN

Cyfraddau Toriadau Cesaraidd

Fel rhan o'r broses reolaidd o fonitro gwasanaethau mamolaeth, nodwyd bod cyfraddau toriadau cesaraidd brys yn ystod 2012 wedi cynyddu. Mewn ymateb i hyn, mae'r obstredyddion arweiniol ar wardiau esgor a'r uwch reolwyr bydwreigiaeth ar gyfer achosion risg uchel wedi cynnal archwiliad manwl o'r achosion a'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer pob toriad cesaraidd brys yn eu hardaloedd er mwyn sicrhau bod arferion gorau yn parhau. Maent wedi cyflwyno eu harsylwadau a'u canfyddiadau i'w trafod gan y fforwm gwasanaethau clinigol amlbroffesiynol. Mae unrhyw ofynion hyfforddiant a nodwyd fel rhan o'r broses hon wedi'u hymgorffori yn yr agenda neu eu cwblhau fel rhan o'r sesiynau hyfforddi a gynlluniwyd gan y gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Mamolaeth yn derbyn y newyddion diweddaraf ar gynnydd drwy gyflwyniadau ar ddangosfwrdd y ward esgor a thrwy gyflwyniadau unigol gan glinigwyr perthnasol.

Mae'r newidiadau i ymarfer yn cynnwys cyflwyno dull 'llygaid ffres' tua dechrau 2012 yn y ward esgor. Gofynnir i uwch fydwraig neu glinigydd meddygol adolygu Cardioclograff (CTG) bob awr pan fo monitro CTG parhaus yn digwydd, pan gaiff risgiau dynodedig y fenyw eu hadolygu. Mae hyn yn sicrhau arferion gorau yn y ward esgor, a gellir dwyn unrhyw beth anarferol i sylw'r uwch staff meddygol, a fydd yn gweithredu'n briodol. Mae'r Pecyn Cymorth Toriad Cesaraidd wedi'i adnewyddu ac mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i gwblhau ffrydiau gwaith dynodedig. Amcan y gwaith hwn yw sicrhau bod menywod yn dechrau ar y llwybr mamolaeth priodol a'u bod yn derbyn y gofal mamolaeth mwyaf diogel ar eu cyfer nhw a'u theluoedd.

Hyfforddiant amlddisgyblaethol

Mae gwasanaeth mamolaeth Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi cydweithio yn ystod 2012/2013 i gynyddu nifer y staff sy'n derbyn hyfforddiant, gan arwain at gynydd o 20% o ran cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant. Mae'r cynnydd hwn wedi'i sicrhau drwy ddarparu hyfforddiant statudol a gorfodol mewn ffordd amlddisgyblaethol. Mae'r gwasanaeth yn elwa ar fforwm clinigol mamolaeth a gynaeoleg misol sy'n para drwy'r dydd ac sy'n cynnwys gweithgarwch archwilio, gwersi a ddysgwyd yn sgil adrodd ar ddigwyddiadau clinigol, rhannu mentrau newydd a sesiynau arferion da a hyfforddiant. Mae'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan glinigwyr y gwasanaeth a siaradwyr gwadd o'r Bwrdd Iechyd.

Mae uwch staff bydwreigiaeth a meddygol yn monitro hyfforddiant statudol a gorfodol yn rheolaidd, ac mae adroddiadau chwarterol yn cael eu llunio fel bod y gwasanaeth yn gallu nodi cynnydd. Caiff adroddiadau ar hyfforddiant eu rhannu yn y fforwm clinigol misol a'r Bwrdd Gwasanaethau Mamolaeth. Mae dadansoddiad blynyddol o anghenion hyfforddiant yn ystyried gofynion lleol a chenedlaethol ac yn llywio rhaglenni hyfforddi'r gwasanaeth.

Yn fwy diweddar, mae'r gwasanaeth mamolaeth wedi bod yn gweithio i weithredu Hyfforddiant Cardiocograffeg Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru ar gyfer staff mamolaeth yn unol â chanllawiau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaeolegwyr. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu sesiynau hyfforddi Cardiocograffeg amlddisgyblaethol a ddechreuodd ym mis Ebrill 2013.

BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Gwaith Atal a Chanolbwytio ar y Blynyddoedd Cynnar

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi rhoi blaenoriaeth i iechyd ac atal clefydau yn y blynyddoedd cynnar, yn enwedig iechyd yn ystod beichiogrwydd a pharatoi ar gyfer beichiogrwydd. Mae amrywiaeth eang o staff iechyd wedi'u hyfforddi i helpu mamau i ddeall pwysigrwydd peidio ag ysmegu pan yn feichiog, ac mae gan bob bydwraig declyn monitro carbon monocsid sy'n dangos lefelau gwaed mamau a babanod heb eu geni. Cydnabyddir bod gordewdra yn ystod beichiogrwydd yr un mor beryglus ag ysmegu, ac mae awdurdodau lleol partner wedi defnyddio grantiau gwella iechyd i gyflwyno cynlluniau ymarfer corff yn ystod beichiogrwydd drwy eu canolfannau hamdden. Mae gweithwyr cownter fferyllfeydd wedi'u hyfforddi i roi cyngor ar faterion iechyd allweddol yn y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys sut i fod mor iach â phosibl cyn beichiogrwydd a rhwng cyfnodau o feichiogrwydd.

Cyflawni Cyswllt Cyntaf

Yn 2009, dechreuodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr weithio i wella ei gydymffurfiaeth â mynediad uniongyrchol i fydwragedd. Mae sicrhau mynediad uniongyrchol i Fydwrraig hefyd wedi gwella'n cydymffurfiaeth â gwneud apwyntiadau i fenywod sy'n feichiog ers 10 wythnos. Rydym wedi rhoi'r camau canlynol ar waith fel rhan o hyn:-

1. Mae gwaith pwysig wedi'i wneud gyda meddygfeydd i sicrhau bod menywod sy'n cyrraedd derbynfa eu meddyg teulu ac yn dweud eu bod yn feichiog yn cael eu hatgyfeirio i'w bydwraig gymunedol. Mae'r menywod naill ai'n cael rhifau ffôn cyswllt neu apwyntiad i weld eu bydwraig gymunedol. Bydwragedd

cymunedol sy'n gyfrifol bellach am y rhan fwyaf o atgyfeiriadau i drefnu gofal mamolaeth.

2. Bu defnydd helaeth o bosteri mewn meddygfeydd, fferyllfeydd lleol, cylchoedd chwarae, canolfannau cymunedol ac ati er mwyn hysbysu menywod y gallant gysylltu'n uniongyrchol â bydwraig pan ddônt i wybod eu bod yn feichiog. Mae'r posterï'n nodi manylion cyswllt lleol.
3. Mae'r rhan fwyaf o'r timau'n cynnal sesiynau galw heibio yn ystod yr wythnos sy'n rhoi cyfle uniongyrchol i fenywod weld eu bydwraig.
4. Mae pob menyw ôl-enedigol yn derbyn cerdyn maint cerdyn credyd wrth adael gofal cymunedol sy'n ei hysbysu y gall gysylltu'n uniongyrchol â'i bydwraig os bydd yn beichiogi eto. Mae'r cerdyn yn cynnwys manylion cyswllt ei bydwraig leol.
5. Mae gan bob tîm ganolfan weladwy yn y gymuned leol.

BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO

Cyfraddau Toriadau Cesaraidd

Cyfradd toriadau cesaraidd bresennol Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yw 21.99%, a dyma'r isaf yng Nghymru. Mae'r clinigwyr sy'n gweithio yn y gwasanaethau mamolaeth yn falch iawn o'r gyfradd hon, ac wedi ymrwymo nid yn unig i gadw'r gyfradd o dan 25%, sef targed Llywodraeth Cymru, ond hefyd ei lleihau ymhellach.

Un o'r rhesymau pwysicaf am y llwyddiant hwn yw'r gwaith tîm amlddisgyblaethol rhagorol sydd wedi datblygu diwylliant lle mae genedigaeth normal yn cael ei hystyried yn fesur o uned famolaeth lwyddiannus. Mae gofal menywod yn hollbwysig gydol eu beichiogrwydd a'r geni, ac maent yn derbyn cymorth i gael genedigaeth normal lle bo hynny'n bosibl.

Mae'r adran famolaeth yn cynnwys Uned o dan Arweiniad Bydwragedd lewyrchus, lle mae menywod â beichiogrwydd risg isel yn cael eu hannog i ddefnyddio'r pyllau geni wrth esgor. Mae gan fydwragedd sy'n gweithio yn yr uned hon brofiad helaeth o ofalu am fenywod adeg geni, ac mae'r ffaith hon wedi cyfrannu'n fawr at y gyfradd isel o doriadau cesaraidd.

Mae diogelwch menywod a'u babanod yn hollbwysig, ac mae'r Obstretyddion a'r Bydwragedd yn derbyn hyfforddiant trylwyr er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau i reoli esgor risg uchel, yn enwedig wrth ddehongli a monitro calon y ffetws, sy'n allweddol bwysig wrth leihau nifer y toriadau cesaraidd. Mae cyflwyno monitro STAN (dadansoddiad ST o ECG y ffetws) wedi darparu gwybodaeth ychwanegol am gyflwr y ffetws er mwyn penderfynu a oes angen ymyrraeth obstetrig; yn ei thro mae'r wybodaeth hon yn helpu'r clinigwr i wneud y penderfyniad cywir ar yr amser cywir. Mae monitro STAN yn ffactor amlwg wrth gadw cyfraddau toriadau cesaraidd yn isel.

Mae gwasanaeth Fersiwn Seffalig Allanol yn cael ei gynnig i fenywod sydd â babi peniwaered. Mae newid safle'r babi fel bod ei ben am i lawr yn lleihau'r angen am doriad cesaraidd. Mae menywod sydd wedi cael toriad cesaraidd yn y gorffennol yn cael eu cwmsela a'u cefnogi i ystyried geni gweiniol ar ôl genedigaeth gesaraidd (VBAC), lle bo hynny'n glinigol briodol. Gall y grŵp hwn o fenywod osgoi toriad cesaraidd arall ar gyfer eu genedigaeth bresennol a genedigaethau'r dyfodol.

Mae'r holl arferion hyn yn cyfrannu at gadw cyfraddau toriadau cesaraidd o dan 25% a'r bwriad yw cynnal rhagor o fentrau i leihau'r gyfradd bresennol ymhellach.

BWRDD IECHYD CWM TAF

Gwybodaeth Mamolaeth

Mae'r System Technoleg Gwybodaeth Mamolaeth (MITS) yn becyn adrodd cadarn ar ystadegau mamolaeth a ddatblygwyd yn sgil partneriaeth agos ac effeithiol rhwng gwasanaethau mamolaeth a gwasanaethau TG Bwrdd Iechyd Cwm Taf. Mae'r wybodaeth a gesglir yn hwyluso prosesau meincnodi ledled y bwrdd iechyd ac yn darparu data cadarn ar gyfer clinigwyr er mwyn: monitro gweithgarwch misol (gan gynnwys gweithgarwch y tu allan i'r ardal), lefelau gweithgarwch prosiectau, cynllunio gwasanaethau, gyda'r gallu i wneud y system yn fwy lleol a gwneud newidiadau yn ôl yr angen ar sail anghenion gwasanaeth/archwilio ac ati. Bydd MITS yn allweddol i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen gan Lywodraeth Cymru yn erbyn y Dangosyddion Canlyniadau a Mesurau Perfformiad Mamolaeth.

Cyfranogiad Defnyddwyr

Sefydlwyd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC) Cwm Taf ym mis Medi 2010. Bu datblygiadau mawr yng ngwasanaethau mamolaeth Cwm Taf dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf. Mae'n dda nodi bod MSLC wedi bod yn rhan o'r datblygiadau hyn, a'i fod wedi ysgogi rhai o'r newidiadau a'r gwelliannau.

Dyma'r prif feysydd y mae'r MSLC wedi canolbwyntio arnynt a'u datblygu:

- Trosglwyddo'r Clinig Beichiogrydd Cynnar o'r ward gynenedigol i'r ward gynaeoleg yn RGH a PCH.
- Erbyn hyn, gall tadau yn cael aros ar y ward gyda menywod sy'n rhoi genedigaeth ar ôl oriau ymweld.
- Hybu a hyrwyddo bwydo ar y fron ymysg bydwagedd.
- Gwerthusiad o ofal wedi'i ddiweddarau ac yn gyson ledled y bwrdd iechyd bellach.
- Creu mewnwyd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n arwain y ffordd i wefan ar gyfer menywod beichiog a rhieni newydd.

BWRDD IECHYD HYWEL DDA

Bydwreigiaeth Normal

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi cyflwyno Llwybr drwy Wasanaethau Bydwreigiaeth Normal. Mae'r llwybr yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn helpu bydwagedd i gynllunio a darparu gofal ar gyfer menywod risg isel gydol y cyfnod cynenedigol, y geni a'r cyfnod ôl-enedigol. Mae'r llwybr yn annog gweithwyr iechyd proffesiynol i wneud i 'Bob Cyswllt Gyfrif' er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar yr agenda hybu iechyd ar gyfer menywod a'u teuluoedd. Mae egwyddorion allweddol yn cael eu sefydlu ar hyd taith y fenyw, ac mae modd cytuno ar gynlluniau gofal unigol mewn partneriaeth â menywod. Nod y llwybr yw hyrwyddo normalrwydd, atgyfeirio fel sy'n briodol, paratoi, cynghori a chefnogi menywod gydol eu cyfnod gofal. Mae'r ddogfen yn cynnwys hyperddolenni fel bod gweithwyr iechyd proffesiynol yn gallu cael gafael ar dystiolaeth i gefnogi eu penderfyniadau. Mae'n llwybr cynhwysfawr sy'n sicrhau

cysondeb, yn lleihau dyblygu ymdrechion ac yn sicrhau nad yw menywod yn derbyn cyngor anghyson.

BWRDD IECHYD POWYS

Cynnig profiad o wasanaethau cymunedol i fyfyrwyr

Yn ddiweddar, mae Gwasanaethau Mamolaeth Powys wedi croesawu tri myfyriwr bydwreigiaeth o'r Almaen a chwiliodd am 'eni yn y cartref' a 'chanolfan eni' ar Google, a gweld mai Powys oedd un o'r ardaloedd lle roedden nhw'n debygol o gael profiad o'r ddau faes, sy'n anghyffredin yn yr Almaen. Roeddent hefyd yn awyddus i ddod i'r DU i gael profiad o Fydweigiaeth Brydeinig. Cawsant brofiad o reoli llwyth achosion, hyrwyddo geni normal (yn enwedig mewn lleoliad cymunedol) a darparu gofal cynenedigol cynhwysfawr ar gyfer pob menyw mewn llwyth achosion. Roedd hyn yn cynnwys paratoi menywod i roi genedigaeth drwy addysg gynenedigol a chynlluniau geni, a darparu cyfleuster ar alwad ar gyfer menywod risg isel sy'n rhoi genedigaeth ym Mhowys naill ai yn y cartref neu yn un o'r canolfannau geni. Cyfrannodd y myfyrwyr at ddarparu gofal esgor a geni normal. Cawsant gyfle hefyd i arsylwi ar ofal ôl-enedigol ar gyfer holl fenywod y llwyth achosion, a oedd yn canolbwyntio ar ymweliadau â'r cartref, cymorth gyda bwydo ar y fron, sgrinio babanod newydd-anedig a chymorth lles emosiynol cyn arsylwi ar y broses o drosglwyddo i'r tîm ymwelwyr iechyd.

Yn ogystal â chael profiad o reoli llwyth achosion yn y gymuned, roedd cyfle i'r myfyrwyr fynychu grwpiau cymorth lleol a sioeau teithio cynenedigol. Cawsant eu hannog hefyd i gyfrannu at y broses Gweddnewid Gofal a gwella egwyddorion ansawdd. Tra oedd y myfyrwyr gyda ni, trefnwyd iddynt fynychu achos brys Obstetrig deuddydd yn y cwrs cymunedol. Aeth y tri myfyriwr ati i werthuso'r lleoliad yn dda, ac roeddent wedi'u cyffroi gan y genedigaethau a welsant a oedd yn rhoi rhyddid i fenywod roi genedigaeth mewn safle o'u dewis, gan gynnwys rhoi genedigaeth ar eu pedwar gyda chymorth y fydwraig drwy'r amser, gan leihau'r angen am feddyginiaeth lleddfu poen fferyllol.

Nodiadau Cyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad Mamolaeth Gwanwyn 2013

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg – Dydd Llun 25 Mawrth

1. Data Perfformiad

i. Cyfraddau toriadau cesaraidd:

Ebrill 2013 – 24.1%

Mae cyfraddau toriadau cesaraidd o dan 25%. Er mwyn gwella cyfraddau ymhellach, mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i ystyried sut mae'n gallu cynyddu cyfraddau genedigaethau normal. Bydd yn astudio ei ystadegau yn fwy trylwyr ac yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod y Bwrdd Perfformiad ym mis Hydref.

ii. Cyfran y menywod sydd wedi cael asesiad cychwynol erbyn bod yn feichiog am 10 wythnos:

Ebrill 2013 - 50–60% wedi'u gweld cyn pen 10 wythnos

Roedd y Bwrdd Iechyd wedi pennu targed blaenorol o 12 wythnos, ond mae'n awyddus i ystyried sut i wella gwasanaethau a chanolbwyntio ar 10 wythnos o feichiogrwydd.

Bydd yn adrodd ar gynnydd yng nghyfarfod y Bwrdd Perfformiad ym mis Hydref.

iii. Cyfraddau'r menywod sydd â chyflyrau iechyd meddwl ar hyn o bryd ac sydd â chynlluniau gofal:

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar hyn ar hyn o bryd.

Mae'r fydwraig yn cofnodi a oes gan fenyw unrhyw un o'r 5 problem iechyd meddwl benodol, ond nid yw'n gallu cofnodi cynlluniau gofal.

Cytunwyd y byddai Penaethiaid Bydwreigiaeth a Llywodraeth Cymru yn trafod sut i gofnodi ac adrodd ar hyn yn y dyfodol.

iv. Canran y menywod a'u partneriaid a ddywedodd fod y gwasanaethau mamolaeth wedi'u trin yn dda:

Ebrill 2013 – Roedd y lefel foddhad gyffredinol yn 90%.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r dull Cymru gyfan ar ôl iddo gael ei gyhoeddi fel holiadur, a bydd angen gofyn i bob menyw sy'n rhoi genedigaeth a yw'n dymuno cwblhau'r holiadur.

Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn sicrhau bod adborth gan ddefnyddwyr yn cael ei gyhoeddi ar ei gyfrifon Twitter a Facebook.

v. Cyfraddau'r menywod wnaeth roi'r gorau i ysmegu, stopio yfed mwy na 5 uned o alcohol, na wnaeth fagu mwy o bwysau na'r hyn a argymhellir, neu a stopiodd gamddefnyddio sylweddau:

Ebrill 2013 – Gan mai gwybodaeth newydd yw hon ar gais Llywodraeth Cymru, mae'r data yn anghyflawn nes bod systemau electronig wedi'u diwygio i helpu i'w chasglu.

Ysmegu

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cofnodi nifer y menywod sy'n cael eu hatgyfeirio, ond nid nifer y menywod sy'n rhoi gorau i ysmegu.

Magu pwysau

Bydd angen newid o ran ymarfer er mwyn pwysu menywod ar ddiwedd eu beichiogrwydd i weld pa mor effeithiol yw negeseuon bwyta'n iach.

Camddefnyddio alcohol a sylweddau

Cofnodir hyn ar ddechrau'r beichiogrwydd ond nid ar y diwedd.

2. Casglu Data

Mae angen datrys materion yn ymwneud â gwybodeg wrth gofnodi problemau iechyd meddwl.

3. Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC)

Mae'r pwyllgor yn gweithio'n dda ac yn adrodd bob blwyddyn i'r Bwrdd mewn adroddiad blynyddol. Mae cyfleoedd hyfforddi wedi'u cynnig i aelodau ac mae cynrychiolwyr wedi sefydlu is-grwpiau i ystyried materion penodol, e.e. marw-enedigaeth.

4. Staffio

Bydwreigiaeth

Cydymffurfio â Birthrate Plus.

Meddygol

Nid yw'n cydymffurfio â safon Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn aros am ganlyniad Rhaglen y De ac effaith yr ad-drefnu ar fodloni'r gofynion ar gyfer presenoldeb meddygon ymgynghorol. Mae'r broses o ddadansoddi'r gweithlu yn mynd rhagddi ar hyn o bryd fel rhan o raglen y De.

Adolygir y sefyllfa hon yng nghyfarfod y Bwrdd Perfformiad yn yr hydref, a fydd yn egluro lefel y staff meddygol sydd ei hangen i fodloni safonau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

ANURIN BEVAN – Dydd Mercher 27 Mawrth

1. Data Perfformiad

i. Cyfraddau toriadau cesaraidd:

Ebrill – 29.7%

Gan fod y cyfraddau yn uwch na 25%, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau edrych ar ffigurau misol a dadansoddi pob uned famolaeth ar wahân. Bydd yn adrodd ar gynnydd yng nghyfarfod y Bwrdd Perfformiad ym mis Hydref.

ii. Cyfran y menywod sydd wedi cael asesiad cychwynol erbyn bod yn feichiog am 10 wythnos:

Nid oedd unrhyw ddata ar gael gan nad yw'r system electronig yn gallu ei gasglu. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn datgan ei fod wedi ymrwmo i gasglu'r data yn y dyfodol drwy ddefnyddio'r system Evolution/Protos. Bydd yn adrodd ar gynnydd yng nghyfarfod y Bwrdd Perfformiad ym mis Hydref.

iii. Cyfraddau'r menywod sydd â chyflyrau iechyd meddwl ar hyn o bryd ac sydd â chynlluniau gofal:

Ychydig o ddata sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd. Cytunwyd y byddai Penaethiaid Bydwreigiaeth a Llywodraeth Cymru yn trafod sut i gofnodi ac adrodd ar hyn yn y dyfodol.

iv. Canran y menywod a'u partneriaid a ddywedodd fod y gwasanaethau mamolaeth wedi'u trin yn dda:

Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r dull Cymru gyfan ar ôl iddo gael ei gyhoeddi fel holiadur, a bydd angen gofyn i bob menyw sy'n rhoi genedigaeth a yw'n dymuno cwblhau'r holiadur.

v. Cyfraddau'r menywod wnaeth roi'r gorau i ysmegu, stopio yfed mwy na 5 uned o alcohol, na wnaeth fagu mwy o bwysau na'r hyn a argymhellir, neu a stopiodd gamddefnyddio sylweddau:

Ysmegu

Erbyn hyn, mae bydwreagedd yn derbyn hyfforddiant gorfodol ar roi'r gorau i ysmegu. Mae angen cofnodi data ar ddiwedd beichiogrwydd.

Magu pwysau

Bydd angen newid o ran ymarfer er mwyn pwyso menywod ar ddiwedd eu beichiogrwydd i weld pa mor effeithiol yw negeseuon bwyta'n iach.

Camddefnyddio alcohol a sylweddau

Cofnodir hyn ar ddechrau'r beichiogrwydd ond nid ar y diwedd.

2. Casglu Data

Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen wrthi'n ystyried sut i wella prosesau cipio data ar gyfer menywod sy'n rhoi genedigaeth yn Ysbyty Nevill Hall.

Mae defnyddio *digi-pens* yn cael ei ystyried gan nad yw bydwagedd cymunedol yn gallu defnyddio systemau mamolaeth o bell.

3. Pwyllgor Cyswilt Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC)

Mae'r MSLC wrthi'n cael ei ddatblygu, ond mae cynnydd addawol wedi'i wneud. Mae trafodaethau'r cyfarfodydd yn gysylltiedig â Gweithredu'r Strategaeth Famolaeth ac mae'r pwyllgor yn gweithio ar sut i hyrwyddo'r MSLC ymhellach h.y. gwefan, cyfeiriad e-bost cyffredinol.

4. Staffio

Bydwreigiaeth

Cydymffurfio â Birthrate Plus.

Meddygol

Cydymffurfio â safon Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

Mae hyfforddiant Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr wedi'i adolygu, ac mae lefelau hyfforddiant gwahanol bellach yn cael eu darparu ar gyfer staff ar raddfeydd gwahanol. Mae canran y staff sy'n manteisio ar hyfforddiant wedi cynyddu o 60% y llynedd i 90% yn 2013.

POWYS – Dydd Iau 28 Mawrth

1. Data Perfformiad

Gan nad oes gan y Bwrdd lechyd system electronig ar gyfer gwybodaeth mamolaeth, ychydig iawn o ddata cywir sydd ar gael.

Dywedodd y Bwrdd lechyd ei fod yn aros i Wasanaethau Gwybodaeth GIG Cymru (NWIS) sefydlu System Famolaeth Myrddin. Cytunodd y Prif Swyddog Nyrzio i siarad â NWIS er mwyn cyflymu'r broses hon.

i. Cyfraddau toriadau cesaraidd:

Yn amrywio o 13% i 45% (achosion brys yn unig)

Mae unrhyw fenyw sydd angen ymyrraeth wrth esgor yn cael ei throsglwyddo y tu allan i Bowys i ysbyty cyffredinol dosbarth. Fodd bynnag, er mwyn cefnogi genedigaethau normal, mae sesiynau genedigaeth weithredol wedi'u cyflwyno, ac mae bydwragedd yn trafod geni gweiniol ar ôl genedigaeth gesaraidd (VBAC) â phob menyw sydd wedi cael toriad cesaraidd yn y gorffennol yn ystod apwyntiad cyntaf ei beichiogrwydd dilynol.

Mae'r gyfradd genedigaethau normal ym Mhowys yn 96%.

ii. Cyfran y menywod sydd wedi cael asesiad cychwynnol erbyn bod yn feichiog am 10 wythnos:

Mae pob menyw yn cael ei gweld cyn pen 12 wythnos ar hyn o bryd, ac mae cynlluniau ar waith i sicrhau asesiad cychwynnol cyn pen 10 wythnos, er nad yw'r system gipio data ar waith eto.

iii. Cyfraddau'r menywod sydd â chyflyrau iechyd meddwl ar hyn o bryd ac sydd â chynlluniau gofal:

Mae yna gysylltiadau cryf rhwng gwasanaethau mamolaeth a gwasanaethau iechyd meddwl, ond mae'n anodd mesur y cysylltiad oherwydd absenoldeb system electronig i gipio data.

Bydd cipio data yn cael ei ystyried wrth gyflwyno System Famolaeth Myrddin.

iv. Canran y menywod a'u partneriaid a ddywedodd fod y gwasanaethau mamolaeth wedi'u trin yn dda:

Mae'r holiadur presennol yn cynnwys graddfa foddhad 1-10, a dewisodd 95% raddfa 5 neu uwch.

Bydd y Bwrdd lechyd yn defnyddio'r dull Cymru gyfan ar ôl iddo gael ei

gyhoeddi fel holiadur, a bydd angen gofyn i bob menyw sy'n rhoi genedigaeth a yw'n dymuno cwblhau'r holiadur.

v. Cyfraddau'r menywod wnaeth roi'r gorau i ysmegu, stopio yfed mwy na 5 uned o alcohol, na wnaeth fagu mwy o bwysau na'r hyn a argymhellir, neu a stopiodd gamddefnyddio sylweddau:

Ysmegu

Mae gwasanaethau cyfredol sy'n helpu menywod i roi'r gorau i ysmegu, alcohol, camddefnyddio sylweddau a rheoli pwysau yn defnyddio rhif ffôn wedi'i gelu i gysylltu â nhw, felly mae menywod yn annhebygol o ateb yr alwad ffôn. Mae'r mater hwn yn cael ei drafod er mwyn canfod atebion.

Magu pwysau

Bydd angen newid ymarfer er mwyn pwysu menywod ar ddiwedd eu beichiogrwydd. Mae system wedi'i sefydlu i fesur pwysau yn y 3ydd tymor.

Camddefnyddio alcohol a sylweddau

Cofnodir hyn ar ddechrau'r beichiogrwydd ond nid ar y diwedd. Mae Kaleidoscope (tîm camddefnyddio sylweddau Powys) yn cofnodi atgyfeiriadau yn hytrach nag achosion o roi'r gorau i gamddefnyddio sylweddau.

2. Casglu Data

Mae angen gwneud llawer o waith i sicrhau bod system famolaeth Myrddin yn cynhyrchu data. Fodd bynnag, disgwylir y bydd data ar gael yng nghyfarfod y Bwrdd Perfformiad Mamolaeth yn yr hydref.

3. Pwyllgor Cyswilt Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC)

Er bod y pwyllgor yn weithredol, mae'r dosbarthiad daearyddol yn golygu bod cynnal cyfarfodydd yn gryn her. Defnyddir y system e-bost i gynnal trafodaethau ar hyn o bryd, a threfnir cyfarfod wyneb yn wyneb unwaith y flwyddyn.

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol MSLC i'r Bwrdd yn 2012.

4. Staffio

Cydymffurfio â Birthrate Plus.

Mae system o obstetryddion ymweld ar waith.

CWM TAF – Dydd Mawrth 2 Ebrill

1. Data Perfformiad

i. Cyfraddau toriadau cesaraidd:

Ebrill 2013 – 37%:

Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod llythyrau'n cael eu hanfon at rieni ar ôl toriad cesaraidd yn eu hysbysu y gallant gael genedigaeth normal os ydynt yn feichiog yn y dyfodol. Mae bydwraig yn trafod hyn gyda phob menyw yn dilyn toriad cesaraidd.

Awgrymodd y Bwrdd fod cysylltiad yn rhannol rhwng cyfraddau uchel â iechyd cyffredinol gwael y boblogaeth.

Mae'r Bwrdd wrthi'n datblygu dull safonol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gynllunio gofal a'r broses o wneud penderfyniadau, a bydd cyfarfod nesaf y Bwrdd perfformiad yn yr hydref yn ystyried y mater hwn.

ii. **Cyfran y menywod sydd wedi cael asesiad cychwynnol erbyn bod yn feichiog am 10 wythnos:**

Nid yw'r data hwn gan y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mewn sawl ardal, mae bydwagedd yn gweld menywod beichiog yn syth gan fod staff derbynfa meddygon teulu yn rhoi rhif ffôn y fydwraig yn hytrach na threfnu apwyntiad â'r meddyg teulu.

Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno data yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Perfformiad yn yr hydref.

iii. **Cyfraddau'r menywod sydd â chyflyrau iechyd meddwl ar hyn o bryd ac sydd â chynlluniau gofal:**

Nid oedd y data ar gael gan fod hwn yn ofyniad newydd.

Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno data yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Perfformiad yn yr hydref.

iv. **Canran y menywod a'u partneriaid a ddywedodd fod y gwasanaethau mamolaeth wedi'u trin yn dda:**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio holiadur cyfredol ac mae clinigwyr ac uwch fydwragedd yn gweld y canlyniadau a'u defnyddio i drafod sut i wella gwasanaethau.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r dull Cymru gyfan ar ôl iddo gael ei gyhoeddi fel holiadur, a bydd angen gofyn i bob menyw sy'n rhoi genedigaeth a yw'n dymuno cwblhau'r holiadur.

v. Cyfraddau'r menywod wnaeth roi'r gorau i ysmegu, stopio yfed mwy na 5 uned o alcohol, na wnaeth fagu mwy o bwysau na'r hyn a argymhellir, neu a stopiodd gamddefnyddio sylweddau:

Mae hyfforddiant ar garbon monocsid bellach yn orfodol ar gyfer bydwagedd. Mae tua 26% o'r menywod beichiog yng Nghwm Taf yn ysmegu ar ddechrau eu beichiogrwydd.

Mae gan gyfran uchel o fenywod Fynegai Mâs y Corff uchel. Caiff menywod eu pwysu mewn clinigau cynnedigol, ac mae rhai'n cael eu hatgyfeirio i Slimming World.

2. Casglu Data

Mae system TG bwrpasol ar waith sy'n gallu dadansoddi ystadegau fesul tîm. Bydd angen cynnwys meysydd data newydd er mwyn casglu data ar berfformiad.

3. Pwyllgor Cyswilt Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC)

Cynhelir y cyfarfodydd yn y Gogledd a'r De am yn ail, ond mae presenoldeb yn anghyson ac mae'n haws dod o hyd i ddefnyddwyr sydd am ymuno â'r MSLC sydd wedi cael profiad gwael.

Mae llawer o grwpiau cyfeillion cefnogol bwydo ar y fron i'w cael.

4. Staffio:

Bydwreigiaeth

Cydymffurfio â Birthrate Plus.

Meddygol

Nid yw'n cydymffurfio â safon Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn aros am ganlyniad Rhaglen y De ac effaith yr ad-drefnu ar fodloni'r gofynion ar gyfer presenoldeb meddygon ymgynghorol. Mae'r broses o ddadansoddi'r gweithlu yn mynd rhagddi ar hyn o bryd fel rhan o raglen y De.

Adolygir y sefyllfa hon yng nghyfarfod y Bwrdd Perfformiad yn yr hydref, a fydd yn egluro lefel y staff meddygol sydd ei hangen i fodloni safonau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

CAERDYDD A'R FRO – 2 Ebrill

1. Data Perfformiad

i. Cyfraddau toriadau cesaraidd:

Ebrill 2013 – 19% (yn is na 25% yn gyson gan gynnwys menywod risg uchel o ardaloedd eraill)

Defnyddir dangosfwrdd i fonitro cyfraddau bob mis o hyd.

ii. Cyfran y menywod sydd wedi cael asesiad cychwynnol erbyn bod yn feichiog am 10 wythnos:

Nid oes data electronig ar gael eto ar gyfer y mesur hwn. Erbyn hyn, mae posterï'n cael eu defnyddio mewn clinigau i hyrwyddo mynd at fydwaig yn gynnar, sy'n cynnwys rhifau cyswllt bydwagedd.

iii. Cyfraddau'r menywod sydd â chyflyrau iechyd meddwl ar hyn o bryd ac sydd â chynlluniau gofal:

Nid oes unrhyw ddata ar gael eto. Bydd y Bwrdd Iechyd yn adrodd ar gynnydd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Perfformiad.

Mae meddyg ymgynghorol sydd â diddordeb mewn iechyd meddwl amenedigol yn ystyried cymryd yr awenau.

iv. Canran y menywod a'u partneriaid a ddywedodd fod y gwasanaethau mamolaeth wedi'u trin yn dda:

Yn defnyddio'r arolwg '2 funud o'ch amser' ar hyn o bryd.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r dull Cymru gyfan ar ôl iddo gael ei gyhoeddi fel holiadur, a bydd angen gofyn i bob menyw sy'n rhoi genedigaeth a yw'n dymuno cwblhau'r holiadur. Mae'r MSLC wedi ymrwymo i gwblhau'r arolwg Cymru gyfan gyda chleifion.

v. Cyfraddau'r menywod wnaeth roi'r gorau i ysmegu, stopio yfed mwy na 5 uned o alcohol, na wnaeth fagu mwy o bwysau na'r hyn a argymhellir, neu a stopiodd gamddefnyddio sylweddau (Bydd angen cymharu % oed menywod a oedd yn ysmegu, yn yfed mwy na 5 uned, â Mynegai Màs y Corff dros 30 ac yn camddefnyddio sylweddau a mesur 5)

Bydd 'Euroking', y system famolaeth electronig newydd, yn gallu casglu data ar ysmegu, ac mae bydwagedd yn defnyddio teclynnau monitro carbon monocsid bellach.

Mae data ar gamddefnyddio sylweddau ar gael yn fwy rhwydd oherwydd bod gan Gaerdydd a'r Fro fydwaig arbenigol.

Mae cynlluniau ar waith i ail-bwyso menywod ar ôl 36 wythnos.

2. Casglu Data:

Cyflwynir system famolaeth 'Euroking' yn y Bwrdd Iechyd ym mis Gorffennaf, ac mae'r sefydliad wedi ymrwymo i weithio gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i ysgrifennu rhaglenni addas er mwyn casglu data cywir. Bydd cynllun gweithredu 3 mis yn cael ei roi ar waith.

Mae bwriad i dreialu *digi-pens* ar gyfer bydwagedd cymunedol hefyd.

3. Pwyllgor Cyswilt Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC)

Mae'r Cylch Gorchwyl wedi'i ail-ysgrifennu'n ddiweddar, ac mae staff mamolaeth Caerdydd a'r Fro yn cefnogi'r MSLC ac yn hyrwyddo'r gwaith o sefydlu 'Grwpiau Mamau' mewn cymunedau er mwyn cyrraedd grwpiau mwy anodd eu cyrraedd.

4. Staffio

Bydwreigiaeth

Nid yw'n cydymffurfio â Birthrate Plus adeg cyfarfod y Bwrdd Perfformiad, ond wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r mater hwn erbyn mis Mehefin. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cadarnhad bellach bod y Bwrdd wedi penodi rhagor o fydwagedd ac yn cydymffurfio â Birthrate Plus.

Meddygol

Nid yw'n cydymffurfio â safon Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn aros am ganlyniad Rhaglen y De ac effaith yr ad-drefnu ar fodloni'r gofynion ar gyfer presenoldeb meddygon ymgynghorol. Mae'r broses o ddadansoddi'r gweithlu yn mynd rhagddi ar hyn o bryd fel rhan o raglen y De.

Adolygir y sefyllfa hon yng nghyfarfod y Bwrdd Perfformiad yn yr hydref, a fydd yn egluro lefel y staff meddygol sydd ei hangen i fodloni safonau Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR – 18 Ebrill

1. Data Perfformiad

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw system famolaeth electronig, felly mae'n rhaid edrych drwy'r Cofnod Mamolaeth Llaw er mwyn dod o hyd i'r data.

i. Cyfraddau toriadau cesaraidd:

Ebrill 2013 - 26%

Mae'r cyfraddau cyffredinol yn 26%, ond mae gwahaniaethau mawr rhwng y 3 safle, gyda chyfradd o 30% yn Ysbyty Glan Clwyd.

Er bod rhai agweddau ar y Pecyn Toriadau Cesaraidd wedi'u cyflwyno, mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn deall y cyfraddau uchel. Disgwylir i'r Bwrdd Iechyd adrodd ar gynnydd yng nghyfarfod y Bwrdd Perfformiad yn yr hydref.

ii. Cyfran y menywod sydd wedi cael asesiad cychwynnol erbyn bod yn feichiog am 10 wythnos:

Ar hyn o bryd, mae 80% o fenywod yn cael eu gweld cyn pen 10 wythnos, ac mae gan tua 90% fynediad uniongyrchol at fydwraig – y ganran uchaf yng Nghymru.

Mae cardiau cyswllt bydwragedd yn cael eu rhoi mewn meddygfeydd a chanolfannau hamdden, ac mae talebau ar gyfer cyfleoedd ymarfer corff ar gael i fenywod beichiog yn Ynys Môn.

iii. Cyfraddau'r menywod sydd â chyflyrau iechyd meddwl ar hyn o bryd ac sydd â chynlluniau gofal:

Mae strategaeth wrthi'n cael ei datblygu i sicrhau bod menywod yn cael eu hatgyfeirio er mwyn cynllunio eu gofal. Mae mesur dros dro i gasglu data yn cael ei weithredu drwy lenwi ffurflenni papur adeg y geni.

iv. Canran y menywod a'u partneriaid a ddywedodd fod y gwasanaethau mamolaeth wedi'u trin yn dda:

Mae hanesion cleifion yn cael eu bwydo i adroddiad Ansawdd a Diogelwch, ac mae'r MSLC wedi cyfrannu at strategaeth foddhad Cymru gyfan.

v. Cyfraddau'r menywod wnaeth roi'r gorau i ysmegu, stopio yfed mwy na 5 uned o alcohol, na wnaeth fagu mwy o bwysau na'r hyn a argymhellir, neu a stopiodd gamddefnyddio sylweddau:

Mae strategaeth les sy'n canolbwyntio ar ysmegu a gordewdra yn ystod mamolaeth wedi bod ar waith ers 18 mis.

Dim ond 3.1% yw cyfradd llwyddiant effeithiolrwydd rholi'r gorau i ysmegu.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi prynu cloriannau bariatrig yn ddiweddar er mwyn pwysu menywod yn fwy cywir.

2. Casglu Data

Mae data'n dal i gael ei gasglu â llaw, sy'n llyncu amser bydwagedd ac yn llai cywir na systemau electronig.

Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei bod yn gwella'r sefyllfa hon erbyn cyfarfod y Bwrdd Perfformiad yn yr hydref.

3. Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC)

Mae yna ymrwymiad i gynnal cyfarfodydd mewn ardaloedd canolog, gorllewinol a dwyreiniol yn eu tro, ac mae hyfforddiant 'Lleisiau' wedi'i gynnal ar gyfer defnyddwyr.

4. Staffio

Bydwreigiaeth

Cydymffurfio â Birthrate Plus.

Meddygol

Yn cydymffurfio â safon Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr ar hyn o bryd, ond oherwydd newid mewn gwasanaethau, bydd angen 60 o oriau meddyg ymgynghorol yn Wrecsam cyn bo hir.

Adolygir y sefyllfa hon yng nghyfarfod y Bwrdd Perfformiad yn yr hydref.

HYWEL DDA – Dydd Gwener 7 Mehefin

1. Data Perfformiad

i. Cyfraddau toriadau cesaraidd – Ebrill 2013 - 32%

Mae cyfraddau toriadau cesaraidd yn uchel yng Ngheredigion o ystyried nifer y genedigaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n gweithio gyda mamau i ddewis VBAC.

ii. Cyfran y menywod sydd wedi cael asesiad cychwynol erbyn bod yn feichiog am 10 wythnos:

Mae'r rhan fwyaf o fenywod yn cael eu gweld cyn pen 12 wythnos, ond nid yw'r data hwn yn cael ei gofnodi ar ffurf electronig eto.

iii. Cyfraddau'r menywod sydd â chyflyrau iechyd meddwl ar hyn o bryd ac sydd â chynlluniau gofal:

Ni chofnodir unrhyw ddata ar hyn o bryd.

iv. Canran y menywod a'u partneriaid a ddywedodd fod y gwasanaethau mamolaeth wedi'u trin yn dda:

Nododd y Bwrdd Iechyd fod canran uchel iawn o fenywod wedi dweud eu bod yn cael eu trin yn dda – er nad oedd unrhyw ddata ar gael (cyfradd ymateb 72%).

Rhoddir 'Fy Nyddiadur' i bob claf sy'n aros yn yr ysbyty, sy'n canolbwyntio mwy ar drin cleifion yn dda.

v. Cyfraddau'r menywod wnaeth roi'r gorau i ysmegu, stopio yfed mwy na 5 uned o alcohol, na wnaeth fagu mwy o bwysau na'r hyn a argymhellir, neu a stopiodd gamddefnyddio sylweddau:

Nid oes unrhyw ddata ar gael. Oherwydd cyfraddau gordewdra uchel, mae'r Bwrdd wedi pennu ei dargedau ei hun ar gyfer lleihau'r cyfraddau.

2. Casglu Data

Mae modiwl Mamolaeth Myrddin yn cael ei ddefnyddio yn y tair uned, ac mae gwaith yn cael ei wneud i atal dyblygu cofnodion data.

3. Pwyllgor Cyswilt Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC)

Problemau daearyddol – mae MSLC Hywel Dda wedi'i rannu'n ddau grŵp. Ceir presenoldeb da gan weithwyr proffesiynol. Cynhelir cyfarfodydd bob deufis.

4. **Staffio**

Bydwreigiaeth

Nid yw'r Bwrdd yn cydymffurfio â Birthrate Plus (tua phedair bydwraig yn brin), ond nododd y bydd yn cynnal adolygiad dros yr haf. Bydd y canlyniadau a'r cynllun gweithredu yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru.

Meddygol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â safon Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.